| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu Cymunedau |
| **DYDDIAD** | 6 Tachwedd 2025 |
| **TEITL** | Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Amgylchedd |
| **RHESWM DROS GRAFFU** | Adrodd i'r Pwyllgor Craffu ar berfformiad yr Adran Amgylchedd |
| **AWDUR** | Dafydd Wyn Williams, Pennaeth Adran Amgylchedd |
| **AELOD CABINET** | Y Cynghorydd Craig ab Iago |

**1. Pam fod angen ei graffu?**

Er mwyn i Aelodau'r Pwyllgor graffu ar faterion perfformiad o fewn yr Adran.

**2. Cefndir / Cyflwyniad**

2.1 Pwrpas yr adroddiad yw eich diweddaru ar beth sydd wedi'i gyflawni yn y maes rwy'n gyfrifol amdano fel Aelod Cabinet Amgylchedd gan gynnig diweddariad ers yr adroddiad a gyflwynwyd i chi ym mis Mehefin eleni.

2.2 Mae'r atodiadau yn amlinellu'r diweddaraf gyda'r addewidion yng Nghynllun y Cyngor a gwaith dydd i ddydd yr Adran ar gyfer y cyfnod hyd at ddiwedd mis Awst 2025.

2.3 Rydym yn gweithredu ar Gynllun y Cyngor 2023-28, ac yma rwyf yn adrodd ar y cynnydd a wnaed hyd at ddiwedd Awst 2025. Mae'r holl faterion wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu mewn cyfarfodydd herio a chefnogi perfformiad, ac rwyf yn fodlon gyda pherfformiad yr Adran.

**3. Perfformiad Prosiectau Cynllun y Cyngor**

3.1 Mae'r Adran Amgylchedd yn arwain ar bump o flaenoriaethau yng Nghynllun y Cyngor 2023-2028, sef:

- Rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr;
- Cynllun Datblygu Lleol Newydd;
- Gwastraff ac Ailgylchu;
- Teithio Llesol;
- Trafnidiaeth Gyhoeddus.

3.2 Rwy'n fodlon iawn gyda'r gwaith a gyflawnwyd hyd yma yn ystod 2025-2026, ac amlinellir y cynnydd yn erbyn y cerrig milltir a osodwyd ar gyfer y pump blaenoriaeth yn Atodiad 1.

## 4. Gwaith dydd i ddydd yr Adran

4.1 Mae Atodiad 2 yn cynnwys y mesurau perfformiad ar gyfer Gwasanaethau ar draws yr Adran, ynghyd â pherfformiad yn cwblhau hyfforddiant diogelu corfforaethol.

4.2 Mae'r adroddiad cynhwysfawr yma yn cynnwys data am y cyfnod diweddaraf, ynghyd â chyd-destun ac esboniad pellach sy'n rhoi mwy o gig ar yr asgwrn ar gyfer perfformiad yr holl feysydd yn ystod 2025-26 hyd at ddiwedd mis Awst.

4.3 Mae'r Adran Amgylchedd yn cynnwys amrediad o feysydd a chyfrifoldebau, y mwyafrif yn wasanaethau rheng-flaen sy'n darparu gwasanaethau allweddol i drigolion y sir. Hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch i staff yr Adran am eu gwaith caled ac ymrwymiad, ac rwy'n hyderus fod eu hymdrechion yn cael ei werthfawrogi gan bobl Gwynedd.

## 5. Ymgynghori

Mae'r adroddiad wedi ei greu yn seiliedig ar wybodaeth a chynnwys cyfarfod diweddaraf i herio a chefnogi perfformiad yr Adran Amgylchedd ar 7 Hydref, gyda'r Aelod Cabinet Amgylchedd, Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Pennaeth Adran, Penaethiaid Cynorthwyol a Rheolwyr Gwasanaeth.

**Atodiadau**

**Atodiad 1:** Adroddiad cynnydd cerrig milltir prosiectau Cynllun y Cyngor
**Atodiad 2:** Mesuryddion Perfformiad yr Adran